# PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2025

**YN BRESENNOL:** **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir**

Y Cynghorydd Margaret M Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Aled M Jones
Y Cynghorydd Dylan Rees

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned**

Mrs Ann Kennedy

**Aelod Annibynnol**

Dr Teleri Jones

**WRTH LAW:** Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro
Dirprwy Swyddog Monitro/Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (LL)
Swyddog Pwyllgor (SC)

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod blaenorol y Panel Dethol a gynhaliwyd ar 23 Medi 2025 ac fe gadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"Penderfynu o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

## 4 PENODI AELOD ANNIBYNNOL I SEDD WAG AR Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor/ Swyddog Monitro i'r Panel Dethol er mwyn ystyried y trefniadau i benodi Aelod Annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.

Adroddodd y Swyddog Monitro, yn dilyn cyfarfod y Panel Dethol ar 23 Medi 2025, bod y swydd wag ar gyfer Aelod Annibynnol wedi ei hysbysebu ar wefan y Cyngor, Twitter a Facebook, Bangor and Anglesey Mail a'r Daily Post, y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 5:00 pm ar 10 Hydref 2025.

Ystyriodd y Panel y ceisiadau a gafwyd yn erbyn y meini prawf gosod a gytunwyd ymlaen llaw ac a amlinellwyd yn yr adroddiad er mwyn llunio rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer cael eu cyfweld.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Bod y Panel Dethol wedi ystyried pob cais (Atodiad 1 o'r adroddiad) ac wedi llunio rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer eu cyfweld.**
- **Bod y Panel Dethol yn cytuno ar bob elfen o'r broses gyfweld fel â ganlyn:-**
  - **Y cwestiynau i'w gofyn;**
  - **Y matrics sgorio fel y nodir yn Atodiad 4 o'r adroddiad;**
  - **Sut y bydd y matrics sgorio yn gweithio;**
  - **Bod yr ymgeiswyr a roddir ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd am gyfweliad ar ddyddiad ac amser i'w gadarnhau.**
  - **Gofyn am dystlythyrau cyn y cyfweliad gan bob ymgeisydd a roddir ar y rhestr fer (gyda chaniatâd pob ymgeisydd sydd ar y rhestr fer).**

Daeth y cyfarfod i ben am 3:35 yp

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS**
**CADEIRYDD**